# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2019

Amser: 09.00 - 12.26

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/5757) yn:

http://senedd.tv/cy/5757

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Huw Irranca-Davies AC<br>Mark Isherwood AC<br>Caroline Jones AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | Jessica Blair, Electoral Reform Society Cymru<br>Huw Rees, Rheolwr Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru<br>Martin Peters, Swyddfa Archwilio Cymru<br>John Bader, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol<br>Greg Owens, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol<br>Sophie Howe, Future Generations Commissioner |

| | |
|---|---|
| | Heledd Morgan, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- John Bader, Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Greg Owens, Is-gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## 3 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Jess Blair, Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

## 4 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 4

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Huw Rees, Cyfarwyddwr Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru
- Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, Swyddfa Archwilio Cymru

4.2 Cytunodd swyddogion i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'u cynigion ar gyfer mecanwaith amgen i'r amod o ddefnyddio adroddiadau arolygu arbennig yn rheoliadau ailstrwythuro Adran 128.

## 5 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth 5

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Heledd Morgan, Ysgogwr Newid yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth gan y Llywydd ynghylch amserlen y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – 4 Rhagfyr 2019

6.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Llywydd ynghylch amserlen Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

### 6.2 Gohebiaeth at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y sesiwn graffu ddiweddar ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – 5 Rhagfyr 2019

6.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y sesiwn graffu ddiweddar ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymgynghoriad ar newidiadau i drefniadau llywodraethu gweithredol mewn prif gynghorau – 5 Rhagfyr 2019

6.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymgynghoriad ar newidiadau i drefniadau llywodraethu gweithredol mewn prif gynghorau.

### 6.4 Gohebiaeth gan Grŵp Gweithredu Celestia ynghylch materion diogelwch tân yn natblygiad Celestia – 5 Rhagfyr 2019

6.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Grŵp Gweithredu Celestia ynghylch materion diogelwch tân yn natblygiad Celestia.

### 6.5 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar fudd-daliadau yng Nghymru - 5 Rhagfyr

6.5a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar fudd-daliadau yng Nghymru.

### 6.6 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 7 Tachwedd - 6 Rhagfyr 2017

6.6a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ynghylch gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 7 Tachwedd.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2, 3, 4 a 5.